

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

SOUTHERN
Regional Assembly
Promoting our Region

Ireland's European Structural and Investment Funds Programmes 2014-2020
Co-funded by the Irish Government and the European Union

# Cronfeydd UE:
# Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru 2014-2020

## Dogfen Gryno

## Beth yw Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru?

Mae Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru o €100m yn cael ei hariannu drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol (ERDF) yr Undeb Ewropeaidd.

Gan gysylltu arfordir Gorllewin Cymru â De-ddwyrain Iwerddon, gweledigaeth y Rhaglen yw:

*‘Cynnig y fframwaith i sefydliadau yn yr ardal drawsffiniol fynd ati i gydweithredu i fynd i’r afael â heriau a blaenoriaethau sydd o fudd i ddwy ochr Môr Iwerddon, felly’n cyfrannu ac yn ychwanegu gwerth at flaenoriaethau datblygu cynaliadwy ac economaidd Iwerddon a Chymru.’*

Bydd y Rhaglen yn cefnogi gweithrediadau gyda phartneriaid yn Iwerddon a Chymru fel ei gilydd, gan ganolbwyntio ar weithgareddau ar draws tri maes blaenoriaeth allweddol, a fydd yn mynd peth o’r ffordd tuag at ateb heriau cyffredin. Môr Iwerddon fydd canolbwynt y Rhaglen, o ystyried mai dyma yw’r ffin rhwng Iwerddon a Chymru a bod modd cael manteision sylweddol o’r adnodd pwysig hwn.

## Ffocws Rhaglen 2014-2020

- **TRAWSFFINIOL** – gweithrediadau trawsffiniol gwirioneddol, gan gynnig gwerth ychwanegol amlwg
- **AMCANION ECONOMAIDD** – ffocws ar weithgarwch economaidd a swyddi a thwf
- **ANSAWDD –** gweithrediadau o ansawdd da sy’n ceisio ateb heriau a blaenoriaethau cyffredin
- **CANLYNIADAU AC EFFAITH –** ffocws cryf ar ganlyniadau mesuradwy gyda’r effaith fwyaf bosibl

Cyfradd ymyrraeth ERDF ar draws y Rhaglen yw hyd at 80% o wariant cymwys.

## ECHELAU BLAENORIAETH

| Blaenoriaeth 1: Arloesi Trawsffiniol | **Amcan Penodol: Cynyddu dwysedd cydweithrediadau trosglwyddo gwybodaeth yn ymwneud â sefydliadau ymchwil a mentrau bach a chanolig yn unol â blaenoriaethau cyffredin y strategaethau arbenigo craff** |
|---|---|
| | Mae'r Flaenoriaeth hon yn canolbwyntio'n gryf ar fwy o arloesi mewn mentrau bach a chanolig, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, drwy annog cydweithredu rhwng sefydliadau addysg bellach ac uwch a sefydliadau sector cyhoeddus eraill gyda mentrau bach a chanolig.<br><br>Mae'r Flaenoriaeth yn ceisio cynyddu dwysedd y cydweithredu i wella perfformiad arloesi ar y cyd a gwneud mentrau bach a chanolig yn fwy cynhyrchiol. Drwy gynyddu'r llif o wybodaeth rhwng sectorau, bydd y Flaenoriaeth yn bennaf yn cefnogi cam cysyniad/dilysu technoleg y syniad arloesi, gan gynnwys y camau profi a datblygu cynlluniau. Bydd y Flaenoriaeth felly'n hwyluso'r gwaith o drosi prosesau ymchwil ac arloesi yn gynhyrchion, gwasanaethau neu brosesau newydd a gwell yn yr ardal drawsffiniol.<br><br>Bydd y Flaenoriaeth yn canolbwyntio ar weithgareddau yn y sectorau canlynol sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau cyffredin y strategaethau arbenigo craff yn y ddwy wlad:<br><br>➢ Gwyddorau Morol ac Amgylcheddol (gan gynnwys ynni adnewyddadwy);<br>➢ Bwyd a Diod;<br>➢ Gwyddorau Bywyd.<br><br>Dyma'r **canlyniadau** y mae'r Flaenoriaeth hon yn ceisio'u cyflawni:<br><br>• Adnabod a mynd i'r afael â'r heriau y mae mentrau bach a chanolig yn eu hwynebu, gan gynnwys mentrau cymdeithasol;<br><br>• Cynyddu nifer y rhwydweithiau trawsffiniol rhwng sefydliadau ymchwil a mentrau bach a chanolig, felly'n cynyddu dwysedd trosglwyddo gwybodaeth drwy gydweithredu. Bydd y Rhaglen yn defnyddio ystod ehangach o arbenigedd a phrofiad mewn perthynas â blaenoriaethau cyffredin y strategaethau arbenigo craff;<br><br>• Dod â chynhyrchion arloesol newydd yn agosach i'r farchnad drwy gydweithredu trawsffiniol rhwng cyrff ymchwil a mentrau bach a chanolig mewn perthynas â blaenoriaethau cyffredin y strategaethau arbenigo craff;<br><br>• Cryfhau ymatebion y strategaethau arbenigo craff a rhoi cyfleoedd i |


| | |
|---|---|
| | wneud mentrau bach a chanolig yn fwy cystadleuol yn rhyngwladol yn unol â'r blaenoriaethau cyffredin sydd wedi'u nodi. |

<table>
<tr><td rowspan="2">Blaenoriaeth 2: Y ffordd y mae Môr Iwerddon a Chymunedau Arfordirol yn addasu i Newid yn yr Hinsawdd</td><td>Amcan Penodol: Cynyddu capasiti a gwybodaeth ynghylch y ffordd y mae Môr Iwerddon a Chymunedau Arfordirol yn addasu i Newid yn yr Hinsawdd</td></tr>
<tr><td>Un o nodau allweddol y Rhaglen hon yw gwarchod a gwella'r amgylchedd morol ac arfordirol er mwynhad cenedlaethau'r dyfodol er gwaethaf effeithiau cynyddol y newid yn yr hinsawdd. Mae gwerth ychwanegol sylweddol o gydweithredu'n drawsffiniol ynghylch y mater hwn, yn enwedig o ran meithrin gwybodaeth ynghylch effeithiau penodol y newid yn yr hinsawdd ar Fôr Iwerddon.<br><br>Bydd y Flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar y cysylltiadau rhwng effaith y newid yn yr hinsawdd ar dwf a swyddi ac yn ceisio ymateb i heriau trawsffiniol i Fôr Iwerddon a chymunedau arfordirol yn sgil effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar gymdeithas, yr economi, busnesau a'r ecosystem rydym yn ei rhannu.<br><br>Mae'r ffin forol rhwng Iwerddon a Chymru yn rhoi'r cyfle i gynyddu capasiti a gwybodaeth am addasu i'r newid yn yr hinsawdd ar draws Môr Iwerddon a'i gymunedau arfordirol drwy gomisiynu ymchwil ar y cyd, rhannu ymchwil cyfredol ac arbenigedd a monitro effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.<br><br>Bydd y Flaenoriaeth yn cefnogi gweithgarwch sy'n ceisio cau bylchau gwybodaeth, gan drosglwyddo'r wybodaeth honno ymysg rhanddeiliaid allweddol a lledaenu'n ehangach ymysg y gymuned wyddonol a chymunedau eraill y rhanbarth trawsffiniol.<br><br>Dyma'r canlyniadau y mae'r Flaenoriaeth hon yn ceisio'u cyflawni:<ul><li>Gwybodaeth well ymysg cymunedau arfordirol Môr Iwerddon i addasu i'r newid yn yr hinsawdd, gan wella eu diogelwch, eu lles a'u hiechyd;</li><li>Gwybodaeth well am effeithiau'r newid yn yr hinsawdd – rhai negyddol a rhai a allai fod yn gadarnhaol – a chapasiti gwell ar gyfer addasu iddynt drwy ddefnyddio strategaethau trawsffiniol a dulliau addasu;</li><li>Mwy o gydnabyddiaeth a chapasiti i elwa o effeithiau cadarnhaol posibl y newid yn yr hinsawdd (e.e. mwy o dwristiaid oherwydd tymor ymweld hwy);</li></ul></td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | • Gwella capasiti i rannu gwybodaeth am y newid yn yr hinsawdd ar draws Môr Iwerddon a'r rhanbarth trawsffiniol. |

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth 3: Treftadaeth Ddiwylliannol a Chyfoeth Naturiol** | **Amcan Penodol: Gwireddu potensial asedau naturiol a diwylliannol mewn ffordd gynaliadwy er mwyn cynyddu nifer yr ymwelwyr â chymunedau arfordirol yn ardal y Rhaglen** |
| | Bydd y Flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar hybu twf cynaliadwy drwy gydweithredu drwy fanteisio ar botensial asedau naturiol a diwylliannol y rhanbarth trawsffiniol.<br><br>Bydd treftadaeth ddiwylliannol a naturiol yn fodd o ysgogi twf economaidd drwy fanteisio ar yr asedau, gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol a gwneud y cymunedau arfordirol yn ardal y Rhaglen yn lleoedd mwy deniadol i ymweld â nhw. Bydd ffocws allweddol ar gefnogi ac arallgyfeirio'r sector twristiaeth i ddenu mwy o ymwelwyr i gymunedau arfordirol.<br><br>Bydd y Flaenoriaeth yn ymchwilio i sut gellir defnyddio Môr Iwerddon i'r perwyl hwn, a sut mae modd manteisio ar dwf gwyrdd a glas i ategu twf economaidd, gyda'r nod o elwa ar gryfderau'r dreftadaeth unigryw sy'n cael ei rhannu, a chymeriad morol ac arfordirol ardal y Rhaglen.<br><br>Dyma'r **canlyniadau** y mae'r Flaenoriaeth hon yn ceisio'u cyflawni:<br><br>• Cynyddu nifer yr ymwelwyr sy'n dod i gymunedau arfordirol y rhanbarth trawsffiniol drwy fanteisio'n gynaliadwy ar eu hasedau naturiol a diwylliannol;<br><br>• Cynyddu capasiti cymunedau arfordirol i fanteisio ar eu treftadaeth naturiol a diwylliannol fel ffordd o annog twf economaidd. |

Bydd y Rhaglen yn cefnogi dwy thema drawsbynciol a fydd yn rhedeg drwy'r rhaglen gyfan: Datblygu Cynaliadwy a Chyfle Cyfartal a phrif ffrydio rhyw.




Rhaglen drawsffiniol yw Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru 2014-2020 sy'n cysylltu Iwerddon a Chymru. Bydd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), fel yr Awdurdod Rheoli, yn arwain ar reoli'r Rhaglen ar y cyd â'i phartneriaid yng Nghynulliad Rhanbarthol y De yn Waterford, Iwerddon.

I gael rhagor o wybodaeth a lawrlwytho Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru 2014-2020, ewch i'n gwefan: http://wefo.wales.gov.uk/programmes/irelandwales/?lang=cy

Fel arall, cysylltwch â'r tîm drwy e-bostio IrelandWalesCrossBorderProgramme@wales.gsi.gov.uk neu ireland_wales@southernassembly.ie

Hefyd gallwch ein dilyn ar Twitter:

@irelandwales a @wefowales

© Hawlfraint y Goron 2015